

Notice of appointment of the date for the exercise of electors' rights

ABENBURY COMMUNITY COUNCIL

Financial year ending 31 March 2021

1. Date of announcement 15th June 2021 _____

2. Each year the annual accounts are audited by the Auditor General for Wales. Prior to this date, any interested person has the opportunity to inspect and make copies of the accounts and all books, deeds, contracts, bills, vouchers and receipts etc relating to them for 20 working days on reasonable notice. For the year ended 31 March 2021, these documents will be available on reasonable notice on application to:

S. BAXTER (CLERK TO THE COMMUNITY COUNCIL)

BY TELEPHONE - 07470631184 _____

BY E-MAIL – abenburyclerk@gmail.com

between the hours of __9am_ and _4pm____ on Monday to Friday

commencing on 20 August 2021

and ending on 17 September 2021

3. From 20 September 2021, until the audit has been completed, Local Government Electors and their representatives also have:

- the right to question the Auditor General about the accounts.
- the right to attend before the Auditor General and make objections to the accounts or any item in them. Written notice of an objection must first be given to the Auditor General. A copy of the written notice must also be given to the council.

The Auditor General can be contacted via: Community Council Audits, Audit Wales, 24 Cathedral Road Cardiff CF11 9LJ.

4. The audit is being conducted under the provisions of the Public Audit (Wales) Act 2004, the Accounts and Audit (Wales) Regulations 2014 and the Auditor General for Wales' Code of Audit Practice.

Electors' rights under the Public Audit (Wales) Act 2004

The basic position

By law, any interested person has the right to inspect the council's accounts. If you are entitled and registered to vote in local council elections, then you (or your representative) also have the right to ask the Auditor General questions about them or challenge an item of account contained within them.

The right to inspect the accounts

When a local government body has finalised its accounts for the previous financial year, it must advertise that they are available for people to look at. Having given reasonable notice of your intentions, you then have 20 working days to look through the accounts and supporting documents. You will be able to make copies of the accounts and most of the relevant documents from the body. You will probably have to pay a copying charge.

The right to ask the auditor questions about the accounts

You can only ask the Auditor General questions about the accounts. The Auditor General does not have to answer questions about the body's policies, finances, procedures or anything else not related to the accounts. Your question must be about the accounts that are subject to audit. The Auditor General does not have to say whether he thinks something the council has done, or an item in its accounts, is lawful or reasonable.

The right to object to the accounts

If you think that the body has spent money that they should not have, or that someone has caused a loss to the body deliberately or by behaving irresponsibly, you can object to the Auditor General by sending a formal 'notice of objection', which must be in writing to the address below. You must tell the Auditor General why you are objecting. The Auditor General must reach a decision on your objection. If you are not happy with that decision, you can appeal to the courts.

You may also object if you think that there is something in the accounts that the Auditor General should discuss with the council or tell the public about in a 'public interest report'. Again, you must give your reasons in writing to the Auditor General at the address below. In this case, the Auditor General must decide whether to take any action. The Auditor General will normally, but does not have to, give reasons for their

decision and you cannot appeal to the courts. You may not use this 'right to object' to make a personal complaint or claim against the body.

If you wish to make a personal complaint or claim, you should take these complaints to your local Citizens' Advice Bureau, local Law Centre, or your solicitor. You may also be able to complain to the Public Services Ombudsman for Wales if you believe that a Member of the body has broken the Code of Conduct for Members. The Ombudsman can be contacted at: 1 Old Field Rd, Pencoed, Bridgend CF35 5LJ, (tel: (01656) 641 150).

What else you can do

Instead of objecting, you can give the Auditor General information that is relevant to their responsibilities. For example, you can simply tell the Auditor General if you think that something is wrong with the accounts or about waste and inefficiency in the way the council runs its services. You do not have to follow any set time limits or procedures. The Auditor General does not have to give you a detailed report of their investigation into the issues you have raised, but they will usually tell you the general outcome.

A final word

Local government bodies, and so local taxpayers, must meet the costs of dealing with questions and objections. When the Auditor General decides whether to take your objection further, one of a series of factors they must take into account includes the costs that will be involved. They will only continue with the objection if it is in the public interest to do so. If you appeal to the courts, you might have to pay for the action yourself.

If you wish to contact the Auditor General, please write to: Community Council Audits, Audit Wales, 24 Cathedral Road, Cardiff CF11 9LJ

Hysbysiad archwilio

Hysbysiad pennu'r dyddiad ar gyfer arfer hawliau etholwyr

CYNGOR CYMUNED ABENBURY

Blwyddyn ariannol yn dod i ben ar 31 MAWRTH 2021

5. Dyddiad cyhoeddi ___15th Mehefin 2021_____

6. Bob blwyddyn, archwilir y cyfrifon blynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cyn y dyddiad hwn, mae unrhyw berson â diddordeb yn cael cyfle i archwilio a gwneud copïau o'r cyfrifon a'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebaw ac yn y blaen sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar rybudd rhesymol. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021, bydd y dogfennau hyn ar gael ar rybudd rhesymol ar gais i:

___ S. BAXTER (CLERK TO THE COMMUNITY COUNCIL)

AR FFON - 07470631184_____

AR E-BOST – abenburyclerk@gmail.com

Rhwng yr oriau o _____9am__ a __4pm_____ o ddydd Llun i ddydd Gwener

Yn dechrau ar

20 Awst 2021

Ac yn dod i ben ar

17 Medi 2021

7. O 20 Medi 2021, hyd nes y bydd yr archwiliad wedi ei gwblhau, mae gan Etholwyr Llywodraeth Leol a'u cynrychiolwyr hefyd:

- yr hawl i holi'r Archwilydd Cyffredinol ynglŷn â'r cyfrifon.
- yr hawl i ddod gerbron yr Archwilydd Cyffredinol a mynegi gwrthwynebiad i'r cyfrifon neu unrhyw eitem ynddynt. Rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig o wrthwynebiad i'r Archwilydd Cyffredinol yn gyntaf. Rhaid rhoi copi o'r rhybudd ysgrifenedig hefyd i'r Cyngor.

Gellir cysylltu â'r Archwilydd Cyffredinol drwy: Archwiliadau Cyngorau Cymuned, Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan Caerdydd CF11 9LJ.

8. Cynhelir yr archwiliad o dan ddarpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Hawliau etholwyr o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

Y sefyllfa sylfaenol

Drwy gyfraith, mae gan unrhyw berson â diddordeb yr hawl i archwilio cyfrifon y Cyngor. Os oes gennych hawl ac os ydych wedi cofrestru i bleidleisio yn etholiadau'r cyngor lleol, yna mae gennych chi (neu eich cynrychiolydd) yr hawl hefyd i ofyn cwestiynau amdanynt i'r Archwilydd Cyffredinol neu i herio eitem sydd wedi ei chynnwys yn y cyfrifon.

Yr hawl i archwilio'r cyfrifon

Pan fydd corff llywodraeth leol wedi cwblhau ei gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, rhaid iddo hysbysebu eu bod ar gael i bobl edrych arnynt. Ar ôl rhoi rhybudd rhesymol o'ch bwriadau, bydd gennych wedyn 20 diwrnod gwaith i edrych drwy'r cyfrifon a'r dogfennau ategol. Cewch wneud copïau o'r cyfrifon a'r rhan fwyaf o'r dogfennau perthnasol gan y corff. Mae'n debyg y bydd yn rhaid i chi dalu tâl copïo.

Yr hawl i ofyn cwestiynau i'r archwilydd ynglŷn â'r cyfrifon

Cwestiynau ynglŷn â'r cyfrifon yn unig y cewch eu gofyn i'r Archwilydd Cyffredinol. Nid oes rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ateb cwestiynau ynghylch polisïau, cyllid, gweithdrefnau'r corff na dim arall nad yw'n gysylltiedig â'r cyfrifon. Rhaid i'ch cwestiwn ymwneud â'r cyfrifon sy'n destun yr archwiliad. Nid oes rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddweud a yw'n credu bod rhywbeth y mae'r cyngor wedi'i wneud, neu eitem yn ei gyfrifon, yn gyfreithlon neu'n rhesymol.

Yr hawl i fynegi gwrthwynebiad i'r cyfrifon

Os byddwch yn tybio bod y corff wedi gwario arian na ddylai fod wedi ei wario, neu fod rhywun wedi achosi colled i'r corff yn fwriadol neu drwy ymddwyn yn anghyfrifol, cewch fynegi gwrthwynebiad i'r Archwilydd Cyffredinol drwy anfon 'hysbysiad o wrthwynebiad' ffurfiol, y mae'n rhaid iddo fod yn ysgrifenedig, i'r cyfeiriad isod. Rhaid i chi ddweud wrth yr Archwilydd Cyffredinol pam yr ydych yn gwrthwynebu. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddod i benderfyniad ynglŷn â'ch gwrthwynebiad. Os nad ydych yn fodlon ar y penderfyniad hwnnw, cewch apelio i'r llys.

Cewch wrthwynebu hefyd os byddwch yn meddwl bod rhywbeth yn y cyfrifon y dylai'r Archwilydd Cyffredinol ei drafod gyda'r Cyngor neu ddweud wrth y cyhoedd amdano mewn 'adroddiad buddiant cyhoeddus'. Unwaith eto, rhaid i chi roi eich rhesymau yn

ysgrifenedig i'r Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad isod. Yn y sefyllfa honno, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol benderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau. Fel arfer, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi rhesymau dros ei benderfyniad, ond nid oes rhaid iddo wneud hynny ac ni chewch apelio i'r llys. Ni chewch ddefnyddio'r 'hawl i wrthwynebu' hon i wneud cwyn bersonol neu hawliad yn erbyn y corff.

Os byddwch yn dymuno gwneud cwyn neu hawliad personol, dylech fynd â'r cwynion hyn i'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth leol, Canolfan y Gyfraith leol, neu eich cyfreithiwr. Efallai y cewch hefyd gwyno wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru os byddwch yn credu bod Aelod o'r corff wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau. Gellir cysylltu â'r Ombwdsmon yn: 1 Heol yr Hen Gae, Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr CF35 5LJ, (ffôn: (01656) 641 150).

Beth arall y gellwch ei wneud

Yn hytrach na gwrthwynebu, gellwch roi gwybodaeth i'r Archwilydd Cyffredinol sy'n berthnasol i'w gyfrifoldebau. Er enghraifft, gellwch sôn wrth yr Archwilydd Cyffredinol os byddwch yn meddwl bod rhywbeth o'i le ar y cyfrifon neu am wastraff ac aneffeithlonrwydd yn y ffordd y mae'r Cyngor yn rhedeg ei wasanaethau. Nid oes rhaid i chi ddilyn unrhyw derfynau amser na gweithdrefnau penodol. Nid oes rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol roi adroddiad manwl i chi ar ei ymchwiliad i'r materion a godwyd gennych, ond fel arfer bydd yn dweud wrthy ch beth yw'r canlyniad cyffredinol.

Gair terfynol

Rhaid i gyrff llywodraeth leol, ac felly trethdalwyr lleol, dalu costau delio â chwestiynau a gwrthwynebiadau. Pan fydd yr Archwilydd Cyffredinol yn penderfynu a ddylid mynd â'ch gwrthwynebiad ymhellach, un o gyfres o ffactorau y mae'n rhaid iddo eu hystyried yw'r costau fydd yn gysylltiedig. Ni fydd yn parhau â'r gwrthwynebiad ond os bydd er budd y cyhoedd i wneud hynny. Os byddwch yn apelio i'r llys, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am yr achos eich hun.

Os byddwch yn dymuno cysylltu â'r Archwilydd Cyffredinol, ysgrifennwch at: Archwiliadau Cynghorau Cymuned, Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.